# Cenn@d

CHWEFROR 26 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 209


## Y Beibl, Dewi Sant a'r Pererin

Gellir disgrifio nifer o storïau'r Beibl yn 'gyfres o deithiau'. Ymysg yr enghreifftiau y mae hanes cyfarwydd taith Abraham, a deithiodd o Fesopotamia i Ganaan mewn ufudd-dod i Dduw. Hefyd bu'r Israeliaid yn teithio ac yn croesi anialwch Sinai i Wlad yr Addewid dan arweiniad Duw. Mae teithiau anturus Paul ar hyd a lled yr Ymerodraeth Rufeinig yn cenhadu ac yn rhannu'r Newyddion Da am yr Arglwydd hefyd wedi'u cofnodi. Ac rydym yn gyfarwydd â theithiau niferus Iesu, yn aml ar droed. Byddai'n cyfarfod â thyrfaoedd enfawr ac yn cyflwyno'r Efengyl ac yn cenhadu yn enw Duw ei Dad pa le bynnag yr âi. Sylwais mai ar droed y byddai pobl yn teithio fwyaf yng nghyfnod Iesu – a holi sawl un ohonom sy'n cerdded i'r oedfa ar y Sul erbyn hyn?

Cerdded wnaeth y rhan fwyaf o'r dyrfa o bererinion a gyrhaeddodd Landdewibrefi, Ceredigion, i glywed Dewi Sant yn pregethu. Mae'r pentref tua saith milltir i'r gogledd o'm cartref yn Llanbedr Pont Steffan, sydd hefyd â chysylltiad â'n nawddsant. Sefydlwyd Coleg Dewi Sant yn y dref gan Thomas Burgess, Esgob Tyddewi, yn 1822. Os buoch erioed yng nghwad Adeilad Dewi Sant, byddwch wedi sylwi ar y cerflun carreg trawiadol o Ddewi Sant. Ar un adeg, ystyriwyd sefydlu'r coleg yn Llanddewi oherwydd y cysylltiad â Dewi Sant a'r wyrth a ddigwyddodd yno. Cynhaliodd synod yno ac wrth iddo bregethu ar y bryncyn lle lleolir Eglwys Dewi Sant heddiw, cafodd y ddaear ei chodi'n wyrthiol dan ei draed er mwyn caniatáu iddo gael ei glywed yn gliriach gan y dyrfa oedd wedi ymgynnull o'i gwmpas. Os ydych wedi bod ar bererindod i Gadeirlan Tyddewi, byddwch yn gyfarwydd â'i fywyd a'i gyfraniadau, a sut y bu iddo ledaenu'r Efengyl ar ei bererindodau ar draws Cymru. Gobeithio i chi hefyd ymweld â Thŷ'r Pererin, a sefydlwyd yn 2013 yn Ganolfan Addysg a Phererindod y Gadeirlan.



Eglwys Dewi Sant, Llanddewibrefi



Cerflun o Ddewi Sant ar adeilad y Brifysgol, Llanbedr Pont Steffan

Ystyrir Tyddewi yn ogystal ag Ynys Enlli ymhlith y cyrchfannau Cristnogol pwysicaf i bererinion yng Nghymru. Mae ganddynt yr un statws â'r enwog Santiago de Compostella, Galicia, Sbaen, a ystyrir ymhlith y cyrchfannau Cristnogol mwyaf poblogaidd i bererinion heddiw. Cawsant yr un statws yn 1190 pan gyhoeddodd y Pab Callistus II fod dwy bererindod i Dyddewi neu Enlli, fel yn achos Santiago de Compostella, yn cyfateb i un bererindod i Rufain. Efallai i hynny eich ysgogi i feddwl am gyrchfannau Cristnogol byd-enwog eraill sy'n denu


Paratoi ar gyfer tymor y Grawys
**Tudalen 3**

Paratoi at Ddydd Gweddi'r Byd – yn Albania
**Tudalen 4**

'Beth yw ystyr y meini hyn?' Cynhadledd undydd ar y defnydd o'n hadeiladau
**Tudalen 8**

## Y Beibl, Dewi Sant a'r Pererin

*(parhad o dudalen 1)*

pererinion, megis Knock yn Iwerddon, Lourdes yn Ffrainc a Jerwsalem yn Israel.

Ond mae yna gyrchfannau sanctaidd Cristnogol eraill yng Nghymru sy'n boblogaidd ymhlith pererinion. Os ydych yn gyfarwydd â chyfres deledu'r BBC *Pilgrimage: The Road Through North Wales*, lle mae criw o 'enwogion' yn ymweld â sawl lleoliad sanctaidd, byddwch wedi clywed am Ffynnon Gwenffrewi, Treffynnon. Dyma gyrchfan sanctaidd arall i bererinion yng Nghymru, a chyfeirir ati hefyd gan Jim Green yn ei gyfrol *Holy Ways of Wales*. Rwy'n ffodus iawn o fod wedi ymweld â Ffynnon Gwenffrewi a Thyddewi – mae Enlli yn dal ar fy rhestr. Ymwelais hefyd â'r pedwerydd lleoliad sanctaidd a ystyrir gan Jim Green ymhlith cyrchfannau pwysica'r pererin yng Nghymru, sef Abaty Ystrad-fflur, ger Pontrhydfendigaid, tua 15 milltir i'r gogledd o'm cartref.



Gŵyl Gerdded Ystrad-fflur Medi 2024 – criw'n ymweld â'r Pererin, cerflun Glenn Morris

Derbyniodd Ystrad-fflur lawer o gyhoeddusrwydd yn dilyn sefydlu Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur sydd wedi ei ddatblygu'n safle hanesyddol ac archeolegol o bwys cenedlaethol a rhyngwladol. Cafodd sylw hefyd ym mis Medi 2024 gyda chynnal Gŵyl Gerdded gynta'r Ymddiriedolaeth. Pwrpas yr ŵyl oedd rhoi'r cyfle i gerddwyr ac ymwelwyr fwynhau'r dirwedd o gwmpas ardal adfeilion Ystrad-fflur a phrofi awyrgylch hudolus y lleoliad cysegredig hwn. Cyflawnwyd hynny: cafodd fy ngwraig Shân a mi'r ymdeimlad ein bod ar bererindod ysbrydol wrth gerdded tirwedd gysegredig Ystrad-fflur.

Trefnwyd cyfres o deithiau cerdded addas i bawb, o'r daith fer 'Lonc a Chlonc' o gwmpas Caeadle'r Abaty i'r hiraf (dros 8 milltir) i Lynnoedd Teifi. Buom yn ffodus hefyd o gael taith at y Pererin, sef cerflun trawiadol Glenn Morris o bren a dur sy'n sefyll yn urddasol ar fryn uwchben adfeilion Ystrad-fflur. Dyma'r ail Bererin ar y safle wedi i'r cyntaf, hefyd gan Glenn Morris, ddymchwel mewn storm yn 2019.

Yn rhan o'r ŵyl cynhaliwyd oedfa 'Moliant y Pererinion' dan arweiniad y Parch. Aled Lewis yn Eglwys y Santes Fair, ger yr abaty, ar y prynhawn Sul. Ei neges oedd ein bod ninnau'n bererinion ar daith bywyd a bod dylanwad safleoedd sanctaidd megis Ystrad-fflur yn cyfoethogi ein teithiau yn gorfforol, yn feddyliol ac yn ysbrydol. Er bod yr abaty'n adfeilion, mae Eglwys y Santes Fair yn parhau i gynnal yr achos yno ac yn gyrchfan cysegredig i'r pererinion ddaw o bedwar ban byd i ymweld ag Ystrad-fflur.

Gobeithio i mi godi ychydig ar gwr y llen yn hanes Dewi Sant a'i gysylltiad allweddol **â** thraddodiadau pererindota'r Cristion. Mae pererindod yn dod **â** phobl at ei gilydd oherwydd bod ganddynt rywbeth yn gyffredin. Yr Arglwydd a'n ffydd yw hynny. Allwn ni felly ystyried ein hunain yn bererinion oherwydd ein bod yn arfer y weithred oesol ers cyfnod Iesu o deithio i'r oedfa er mwyn cael clywed, gwrando a deall Gair yr Arglwydd? Yr hyn a wnawn yw mynd ar bererindod i le cysegredig a sanctaidd, boed yn gapel, eglwys neu'n fan addoliad arall i addoli'r Arglwydd.

*Rhys Bebb Jones*

*Llanbedr Pont Steffan*
*Cydlynydd Hyfforddiant EBC*



Gŵyl Gerdded Ystrad-fflur Medi 2024 - Abaty Ystrad-fflur ac Eglwys y Santes Fair o gopa Pen-y-bannau

# Paratoi ar gyfer tymor y Grawys




Bydd tymor y Grawys eleni yn dechrau ddydd Mercher, 5 Mawrth, ac yn dod i ben ddydd Iau, 17 Ebrill. Mae adnoddau ar gael ar y we ar gyfer nodi Dydd Mawrth Ynyd: [Dydd Mawrth Ynyd | Adnoddau Cristnogol Cymraeg i'w lawrlwytho], a hefyd ar gyfer tymor y Grawys a'r Pasg: [Y Pasg – Tymhorau | Adnoddau Cristnogol Cymraeg i'w lawrlwytho]

**Adnodd newydd**

Mae cyfres o astudiaethau Beiblaidd newydd, wedi eu paratoi gan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, ar gael ar gyfer y Grawys eleni ar y thema 'Undod Cristnogol mewn Byd sy'n Chwalu'. Maent ar gael i'w lawrlwytho, yn rhad ac am ddim o'r wefan: [Lent 2025 – Christian Unity in a Fragmenting World - CTBI]

Mae'r adnodd hwn yn dilyn thema'r Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol eleni ac yn ein gwahodd i gymryd golwg ar berthnasedd parhaus cyngor eciwmenaidd cyntaf yr Eglwys a gynhaliwyd yn Nicea 1700 o flynyddoedd yn ôl – adeg arwyddocaol yn hanes ein taith tuag at undod.

Arweiniodd y Cyngor at fabwysiadu Credo Nicea, sy'n dal i fod yn ddatganiad canolog o ffydd i lawer o Gristnogion – er nad i bob un. Mae sawl llwybr wedi ymwahanu ers hynny, a gwelwyd rhwygiadau a sefydlu eglwysi a mudiadau newydd o fewn y teulu Cristnogol. Nod gwaith undod Cristnogol yn ei ffurfiau niferus, o gysylltiadau anffurfiol a chyfeillgarwch i fodelau ffurfiol o ddeialog ddiwinyddol strwythuredig, o'r gymuned leol i lefel ryngwladol, yw dod â ni'n ôl at ein cwlwm o agosrwydd ysbrydol hanfodol a pherthyn yng Nghrist. Gyda'n gilydd gallwn ddilyn yn well yr esiampl a osodwyd i ni gan Iesu o wasanaeth cariadus i bawb, yn enwedig y rhai mwyaf bregus.

Mae cofio Cyngor Nicea 1700 o flynyddoedd yn ôl, wrth i ni i gyd ddathlu'r Pasg, yn gyfle unigryw i fyfyrio ar gynnydd ein taith eciwmenaidd, dyfnhau ein perthynas â'n gilydd ac adnewyddu ein gweledigaeth a'n hymrwymiad.

Mae'r adnodd hwn yn seiliedig ar y themâu sydd wedi dod i'r amlwg yn ein myfyrdodau wrth inni gofio'r achlysur pwysig hwn fel Eglwysi Ynghyd, gan wahodd eraill i ystyried beth allai fod yn fwyaf perthnasol yn eich cyd-destun penodol chi a pha gamau y gallech gael eich hysbrydoli i'w cymryd.

Byddwn yn cyhoeddi'r saith sesiwn hyn yn *Cenn@d* dros yr wythnosau nesaf.

# Galwad olaf: Ceisiadau ar gyfer Hyfforddiant mewn Cenhadaeth – Diploma mewn Astudiaethau Cenhadol 2025

*Wyt ti'n credu dy fod ti'n cael dy alw gan Dduw i gymryd rhan mewn hyfforddiant Cristnogol ffurfiannol sy'n cyfrannu at ymwneud gydol oes yng nghenhadaeth Duw drwy'i eglwys?*

*Wyt ti'n agored i weledigaeth ehangach, ymroddiad dyfnach, ac awydd cryf gennyt i weithio mewn tîm ac i bartneru â Christnogion eraill ar draws y byd, yn arbennig drwy'r eglwysi sydd yn perthyn i Gyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM)?*

Rydym yn dy wahodd i wneud cais ar gyfer Rhaglen Hyfforddi mewn Cenhadaeth (Training in Mission) – Diploma mewn Astudiaethau Cenhadol, a fydd yn cael ei gynnal o ddiwedd Ebrill hyd fis Tachwedd 2025. Mae angen cyflwyno'r cais **erbyn 28 Chwefror**.

Ers dros 40 mlynedd bellach, bu'r Rhaglen Hyfforddi yn rhan o ymdrechion CWM i rymuso pobl ifanc ar gyfer cenhadaeth a gweinidogaeth eu heglwysi gan gynyddu gallu'r eglwys i dystio'n gyhoeddus. Ymysg mentrau eraill, mae'r Rhaglen Hyfforddi'n grymuso cenhedlaeth newydd o arweinyddion â dealltwriaeth ymarferol a radical o'r hyn mae tystio i Grist yn ei olygu.

Mae'r Rhaglen Hyfforddi mewn Cenhadaeth yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ieuenctid rhwng 18 a 30 oed, sy'n ddibriod a heb fod wedi eu hordeinio, i dreulio chwe mis a hanner yn dilyn cwrs dwys o ddysgu am genhadaeth mewn theori ac yn ymarferol. Bydd hefyd yn golygu ymweld â lleoliadau arbennig, cyflawni prosiectau heriol, a gwaith fydd angen torchi llewys ar ei gyfer mewn nifer o gyd-destunau.

Bydd y rhai sy'n cwblhau gofynion asesiad y Rhaglen Hyfforddi yn derbyn Diploma mewn Astudiaethau Cenhadol. Bydd hwn yn gymhwyster fydd yn cydnabod doniau arweinyddol mewn cenhadaeth ac addysg er mwyn ehangu cyfleoedd i ganfod gwaith neu i weithio'n wirfoddol.

Mae'r eglwysi sy'n perthyn i CWM ledled y byd, gan gynnwys rhai yma yng Nghymru (Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig), a phartneriaid eciwmenaidd yn elwa o feithrin pobl addas â'r wybodaeth a'r sgiliau i arwain yn llwyddiannus mewn ystod eang o gyfleoedd cenhadol.

[Lawrlwythwch fanylion y rhaglen yma].

[Lawrlwythwch y ffurflen gais yma.]

Am ragor o wybodaeth, ebostiwch empowerment@cwmission.org.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **28 Chwefror 2025**.

# Paratoi at Ddydd Gweddi'r Byd – yn Albania

Ymhen rhai dyddiau, ddydd Gwener, 7 Mawrth, byddwn yn dathlu Dydd Gweddi'r Byd. Ac fel cynrychiolydd Cymru ar y Pwyllgor Rhyngwladol, cefais y fraint o fynd i sawl cyfarfod paratoi yng Nghymru a Lloegr yn ystod yr hydref. Yna ychydig cyn y Nadolig daeth gwahoddiad i ddwy ohonom sydd ar y pwyllgor cenedlaethol ymweld ag Albania gan fod y wlad yn cael nawdd gennym fel pwyllgor a bod cydweithio rhwng yr eglwysi yno yn anodd.

Felly, cytunes i a Charity Madenyika, gweinidog gyda'r Methodistiaid yn Llundain, i gynrychioli'r pwyllgor yn y gynhadledd. Aethom â nwyddau efo ni gyda logo'r Dydd Gweddi, posteri, taflenni, lluniau a chyflwyniadau ac offer PowerPoint, deunydd crefft a phapurau lliwgar ar gyfer sesiynau crefft, a llyfrau am Gymru.

Fe wnaethon ni lanio yn y brifddinas, Tirana, fin nos ar 30 Ionawr, a daeth y trefnydd lleol, Merita Meko, i'n cyfarfod a'n tywys i'r gwesty, a chawsom swper ysgafn cyn noswylio.






Y bore wedyn tywysodd Merita ni o gwmpas y brifddinas ac eglurodd am ei hanes anwadal ers iddyn nhw fod dan ddylanwad Rwsia.




Ychydig ddyddiau cyn imi ymweld, roedd angladd eu Harchesgob Catholig wedi cael ei gynnal, a syndod oedd bod y torchau blodau yn dal i'w gweld a'u harogl tambaid, nid nepell o Eglwys Gadeiriol Santes Theresa.





Rhyfedd oedd canfod olion o'r Rhyfel Oer a'r cyfnod comiwnyddol – sydd bellach yn weithiau celf.




Bnawn Gwener symudon ni i ganolfan wyliau ar lan y môr yn Duress i gynnal y sesiynau paratoi. Yno roedd stafell bwrpasol inni gynnal gwasanaethau, cynadledda a chael gweithdai. Roedd yn syndod inni mai dim ond Merita a'r gweinidog a'i merch dair ar ddeg oed oedd yn siarad Saesneg, a bu raid iddynt gyfieithu ein hanerchiadau a'n cyflwyniadau PowerPoint. Gwisgai'r chwiorydd ddillad du i sefyll yn gadarn yn erbyn trais ac annhegwch yn erbyn merched, gan fod un diwrnod yr wythnos yn canolbwyntio ar hynny.





Roeddynt yn gwerthfawrogi'n fawr ein cyflwyniadau a'r deunydd yr oeddem wedi ei gludo, gan nad oedd offer o'r fath ganddynt – agoriad llygad i ni sydd â thechnoleg ryngweithiol ar gael ym mhob canolfan, bron.

Y bore canlynol fe ddaeth nifer o gynulleidfa wledig atom i chwyddo'r niferoedd, ac ar ôl y foreol weddi cafwyd astudiaeth Feiblaidd ar Salm 139, sy'n cynnwys thema'r gwasanaeth eleni, 'Rwyf wedi eich gwneud yn rhyfeddol'.

I ddangos pa mor rhyfeddol ac unigryw ydym ni, fe wnaethom baentio olion ein bodiau.



(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Paratoi at Ddydd Gweddi'r Byd – yn Albania*

*(parhad o dudalen 5)*












Bu rhai'n paratoi torchau a blodau i'w gwisgo ar eu pennau, ac fe wnaeth eraill ganŵs fel y rhai sydd i'w gweld yn Ynysoedd Cook. Defnyddiwyd y rhain yn y gwasanaeth i gloi'r penwythnos.

Hyfryd oedd cael cymdeithasu gyda'r nos a chyfnewid traddodiadau cerddorol a dawnsfeydd Cymreig â rhai o Albania. Braint hefyd oedd rhannu yn y moliant wrth fynd drwy'r gwasanaeth fore Sul gan ryfeddu y byddwn drwy'r byd i gyd yn cael ein harwain gan ferched Ynysoedd Cook. Bendith arnoch i gyd.

*Nesta Davies*

# Tardis

Daliodd y Tardis ddychymyg cenedlaethau o blant o bob oed ers i Dr Who ddod i'r sgrin yn 1963, a hynny am ddau reswm: ehangder mewnol bocs ffôn glas yr heddlu, a'i allu i deithio'r canrifoedd. Pe meddwn dardis, medrwn ar drothwy Gŵyl Ddewi fynd 'nôl i'r chweched ganrif i weld Dewi wrth ei waith yn un o gyfnodau ffurfiannol ein cenedl. Neu fynd ymlaen, i ddiwedd y ganrif bresennol i weld beth fydd cyflwr yr Eglwys Gristnogol yng Nghymru erbyn hynny. Ond chaf fi ddim gwneud hynny, ddim mwy nag y caf ail-fyw profiadau melysaf fy mywyd, er cymaint yr hiraeth am hynny ar brydiau.




A ninnau'n byw'r bywyd Cristnogol ac yn gwasanaethu Iesu Grist mewn cyfnod o gyni ysbrydol yng Nghymru, mae'n rhwydd digalonni a gofidio na fyddem yn perthyn i gyfnod gwahanol. Sut brofiad fyddai byw ym merw Diwygiad Protestannaidd yr unfed ganrif ar bymtheg ac addoli ym meudai a thyddynnod Ymneilltuwyr y ganrif honno a'r un a'i dilynodd? Neu fyw yng ngwres Methodistiaeth y ddeunawfed ganrif, neu yn oes aur codi'r capeli yn y bedwaredd ar bymtheg, neu yng nghyffro diwygiadol 1904?

Ond er cymaint sydd i'w ddysgu o'r cyfnodau hynny, chawn ni ddim camu'n ôl iddynt. Nid plant y ddoe na'r yfory pell mohonom, ond plant ein hoes. Mor bwysig cofio hynny, a deall hefyd nad digwydd perthyn iddi a wnawn. Rhagluniaeth Duw a'n gosododd ynddi. Yn ei ddoethineb a'i lywodraeth dros bopeth, rhoddodd Duw ni mewn lle a chyfnod penodol i dystiolaethu iddo a'i wasanaethu. Waeth heb â meddwl y byddai'n well, yn fwy cyffrous neu'n haws gwneud hynny mewn oes wahanol.

Beth bynnag a gyflawnodd arwyr y ffydd o'n blaen, nid Dewi na William Morgan na Howel Harris na Phantycelyn na Gwilym Hiraethog nac Evan Roberts a osododd Duw yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain, ond y ni a'n tebyg. Medrwn gywilyddio o weld gwanned ein ffydd a'n tystiolaeth, neu ddiolch am y gras a'n cynhaliodd, er gwaetha'r cyfan. Medrwn ein beio ein hunain am dlodi ysbrydol ein hoes, neu gofio na fu Cristnogion yr un cyfnod yn gyfrifol am y llwyddiant a welsant, er cymaint eu llafur. Gras Duw a'i rhoddodd, a'r un gras sy'n peri unrhyw fendith bosibl i'n cenhadaeth ninnau.


Waeth heb â breuddwydio am gyfnod gwahanol. O bosib y câi amgylchiadau oes arall ryw ddylanwad arnom, ond yr un mewn gwirionedd a fyddem ym mhob oes. Ein braint a'n galwad yw gwasanaethu'r Arglwydd heddiw, gan erfyn arno i drugarhau ac arddel ein tystiolaeth a bywhau ei waith.

*John Pritchard, Llanberis*

(Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn *Llais Aled*, 20 Chwefror)

# *Llyfr y Pregethwr*

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 8: Gorthrwm a gwaith**

**Llyfr y Pregethwr 4:1–8**

Er bod yna gyfeiriadau at Dduw yn y drydedd bennod, nid oes unrhyw sôn amdano yn y bedwaredd. Yn hytrach, mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar weithredoedd dynol, ar yr hyn sy'n digwydd 'dan yr haul' (4:1,3,7,15).

**Dagrau'r gorthrymedig**

Yr hyn sy'n taro'r Pregethwr yn gyntaf yw pa mor annheg yw bywyd. Mae'n enwi dau ddosbarth o bobl, sef y gorthrymedig a'r gorthrymwyr. Er nad cyfiawnder a barn a ddaw i'r meddwl gyntaf wrth ystyried neges y llyfr, mae'r awdur yn rhoi sylw yma i un o themâu mawr y Beibl, sef cyfiawnder cymdeithasol, fel y gwelir yn yr adnodau isod.

'Paid â gwneud cam â'r estron, na'i orthrymu, oherwydd estroniaid fuoch chwi yng ngwlad yr Aifft. Peidiwch â cham-drin y weddw na'r amddifad' (Exodus 22:21–2) yw un o ddeddfau moesol y cyfamod a wnaeth Duw ag Israel. Mae Amos 4:1, Jeremeia 7:6 ac Eseciel 22:29 yn tanlinellu hyn, ac fe alwodd Sechareia ar i drigolion Jwda beidio 'â gorthrymu'r weddw, yr amddifad, yr estron, a'r tlawd' (Sechareia 7:9–10).

Dywed fod y gorthrymedig yn dioddef mewn o leiaf dair ffordd:

1. oherwydd amgylchiadau bywyd. Golygfa gyfoes yw gweld pobl ddigartref yn gofyn am arian, yn dioddef o newyn a salwch, yn gaeth i gyffuriau, yn cysgu ar y pafin ac yn nrysau siopau. Yn gynyddol, mae teuluoedd yn methu ymdopi; ni allant wresogi eu cartrefi ac nid oes ddewis ond dibynnu ar y banc bwyd.

2. oherwydd unigrwydd. Er bod eu bywydau'n gyfforddus, mae eraill yn dioddef yn sgil unigrwydd. Gwelodd y Pregethwr ddagrau yn llygaid llawer un am nad 'oedd neb i'w cysuro' (4:1).

3. oherwydd nad oes neb yn sefyll o'u plaid. Dyna pam y mae pwyslais yn y Beibl ar warchod aelodau mwyaf diamddiffyn cymdeithas – y weddw, yr amddifad a'r estron.

**Mantais y meirw**

Wrth weld y dioddefaint a'r anghyfiawnder mae'r Pregethwr yn gwneud datganiad syfrdanol, sef fod marw'n rhagori ar fyw. Hwn yw gosodiad mwyaf digalon y llyfr. Yn ei farn ef, mae'n 'well ar y rhai sydd eisoes wedi marw na'r rhai sy'n dal yn fyw' (4:2). Mae'n eiddigeddus o'r meirw am fod marwolaeth yn ein harbed rhag dioddef 'yr holl orthrymderau sy'n digwydd dan yr haul' (4:1). Yna, â ymhellach gan ddweud mai 'gwell na'r ddau yw'r rhai sydd eto heb eu geni' (4:2–3). Ceir yr un meddylfryd gan Job (3:3–26) a Jeremeia (20:14–18).

**Cystadlu neu gydweithredu?**

Er bod yr awdur eisoes wedi dweud bod modd cael mwynhad mewn llafur ac mai rhodd Duw yw hyn, mae'n cyfeirio nesaf at ddau gymeriad sy'n cynrychioli dau begwn yn eu hagwedd at waith: y diwyd a'r diog (4:4–6). Y 'diwyd' yw'r bobl sy'n ymdrechu, ac yn ôl pob golwg maent yn llwyddo i gael bywyd cyfforddus, ond talant yn ddrud am hyn drwy fod yn gwbl gaeth i'w gwaith.

Barn y Pregethwr yw mai cenfigen yw'r sbardun i'r fath lafur diflino. Mae'r ysfa i weithio'n rhy galed yn deillio 'o genfigen rhwng rhywun a'i gymydog' (4:4). Ni ellir gwadu bod ymroddiad i waith diarbed yn aml iawn yn deillio o fod yn eiddigeddus o lwyddiant eraill.

Ond rhaid cydnabod nad yw'r cysylltiad rhwng llafur a chenfigen yno ym mhob achos. Nid eiddigedd sy'n cymell y gweithiwr tlawd i lafurio'n galed. Os yw am fwydo'i deulu a thalu ei ddyledion, pa ddewis sydd ganddo ond gweithio?

**Diogyn**

Yna, fe dry o'r diwyd i'r diog. Dirmygu'r cystadlu brwd ymysg y diwyd a wna'r diog, a chymryd pob cyfle i osgoi gweithio. Mae ei agwedd yn ennill iddo'r enw 'ffŵl' am nad oes ganddo'r synnwyr i sylweddoli ei fod 'yn ei ddifa'i hun' (4:5), yn yr ystyr ei fod yn siŵr o lwgu. Ceir sylwadau tebyg yn Llyfr y Diarhebion: 'Ti ddiogyn, dos at y morgrugyn, a sylwa ar ei ffordd a bydd ddoeth' (6:6, 9–11 a 10:4–5).

Er y gall llafur fod yn faich, mae'n rhaid i bawb weithio er mwyn i gymdeithas ffynnu. Fe ddylai hyn fod yn amlwg i bob crediniwr. Onid dyna Gyfraith Moses? 'Chwe diwrnod yr wyt i weithio a gwneud dy holl waith, ond y mae'r seithfed dydd yn Saboth yr ARGLWYDD dy Dduw; na wna ddim gwaith y dydd hwnnw' (Exodus 20:9–10).

Cyn cloi, tynnir sylw at fywyd gwag y sawl sy'n byw i weithio yn hytrach na gweithio i fyw (adn. 7–8). Am ei fod yn llafurio'n ddi-baid, nid oes gan y sawl sydd â'i fryd ar wneud arian gyfle i fwynhau cwmni pobl eraill. Oherwydd ei obsesiwn, nid oes gan y cybydd neb ond ef ei hun i'w feio am ei unigrwydd. Nid yw'r cyfoeth a ddaw o'i holl waith yn rhoi unrhyw foddhad iddo. Pam mae'n ei amddifadu ei hun o bleser a chyfeillgarwch, yn enwedig pan nad oes ganddo neb i etifeddu ei ffortiwn?

**Beth 'dych chi'n feddwl?**

1. Darllenwch adnodau 2 a 3 eto a thrafodwch y sylwadau 'mai gwell yw cyflwr y meirwon a'r rhai sydd heb eu geni na'r rhai sy'n fyw'. A oes agweddau cyfoes sy'n cyfateb i hyn?
2. A oes gan y Pregethwr unrhyw ymwybyddiaeth o fywyd ar ôl marwolaeth?
3. I ba raddau y mae cenfigen a chystadleuaeth i wneud elw ym myd masnach o fantais i bobl gyffredin?
4. Ym mha ffyrdd y gall cymdeithas wneud mwy i leddfu unigrwydd y sawl sy'n byw ar ei ben ei hun?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Momentum 2025 – Dathlu Rhodd yr Ysbryd

Estynnwn wahoddiad i eglwysi a theuluoedd yng Nghymru i fynychu'r diwrnod hwn o ddathlu, gyda gweithdai ar gyfer pob oedran yn ogystal ag addoliad. Ymunwch â ni mewn diwrnod arbennig i'r teulu wrth i ni ddathlu rhodd yr ysbryd i'r eglwys, ddoe, heddiw ac yfory!

Bydd Momentum 2025 yn ddiwrnod anhygoel gyda gwesteion a gweithgareddau arbennig. Gydag amrywiaeth o siaradwyr gwadd – gan gynnwys ein prif siaradwr, Belle Tindall – a dewis eang o sesiynau, bydd rhywbeth i bawb ar y diwrnod! Noder mai digwyddiad di-Gymraeg yw hwn.

Archebwch eich tocynnau cyn **20 Ebrill** i sicrhau gostyngiad – 'y cyntaf i'r felin ...'

**Ein prif siaradwr ...**

Mae'n bleser gennym gyhoeddi mai ein prif siaradwr eleni yw Dr Belle Tindall, awdur staff yn y Ganolfan Dystiolaeth Ddiwylliannol (Llundain). Ar hyn o bryd mae'n ysgrifennu ac yn curadu straeon, erthyglau a thraethodau ar gyfer y cylchgrawn *Seen and Unseen* (a chyhoeddiadau eraill), yn siarad mewn amrywiol fannau, ac yn cynnal sgyrsiau melys ar gyfer podlediadau Re-enchanting (ochr yn ochr â Justin Brierley) a Cross Culture (ochr yn ochr â Lauren Windle). Fe'i ganed yn sir Benfro a'i magu yn eglwys Fedyddiedig Mount Pleasant, Penfro.

Mae Belle wedi cyfrannu penodau at gyfrol gyntaf *Girl Got Faith* yn ogystal â llyfr Archesgob Caergaint ar gyfer y Grawys 2024. Ar hyn o bryd mae ar ganol ysgrifennu ei llyfr cyntaf ei hun ar y ffordd y mae arferion ysbrydol yn dod yn rhan o'r brif ffrwd unwaith eto. Mae ganddi ddoethuriaeth mewn astudiaethau Beiblaidd, gan arbenigo yn ymwneud Iesu â menywod, cysylltiadau Iddewig–Gristnogol yn y Testament Newydd, a diwylliant y cyfryngau yn yr oesoedd a fu.




Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen Foundation

## YSGRIFENNYDD GWEITHREDOL
## EXECUTIVE SECRETARY

Dyma gyfle i arwain tîm bychan sy'n gyfrifol am weinyddiaeth **Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen** – elusen Gymreig wedi'i lleoli ynghanol tref Aberystwyth

Dyddiad dechrau'r swydd: 1 Medi 2025

Mae'r gallu i weithio'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon

Dyddiad cau: 18 Mawrth 2025

Manylion llawn ar wefan yr Ymddiriedolaeth:
https://www.jamespantyfedwen.cymru/

neu mae croeso i chi gysylltu am sgwrs anffurfiol
01970 612806 / post@jamespantyfedwen.cymru


## Neges Atgoffa

**Eisteddfod yr Urdd, Dur a Môr, Parc Margam,**
**26–31 Mai 2025: Pabell yr Eglwysi ac Ysgolion Sul**
Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: eglwysi ynghyd yng Nghymru a Chyngor yr Ysgolion Sul am 7 o'r gloch nos Fawrth, 4 Mawrth 2025, yng Nghapel y Nant, Clydach, i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwysi ar faes Eisteddfod yr Urdd ym Margam eleni.

**Y Sioe Fawr, Llanelwedd, 21–4 Gorffennaf 2025:**
**Pabell yr Eglwysi**
Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: eglwysi ynghyd yng Nghymru am 1 o'r gloch bnawn Mawrth, 4 Mawrth 2025, yng Nghanolfan y CCRW ar faes y Sioe i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos y Sioe eleni.

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 2 Mawrth, am 6.45yh – Gŵyl Ddewi**
Bydd Rhodri Gomer yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Nghaerdydd yng nghwmni criw o wirfoddolwyr sy'n dilyn esiampl nawddsant Cymru drwy wneud y pethau bychain. Bydd gwledd o emynau o Eglwys Gatholig San Pedr, Caerdydd, a chawn berfformiad swynol gan Gôr Bryn Owain o Fro Morgannwg.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 2 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Evan Morgan

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 2 Mawrth, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Charlotte Rushden, Pontypridd

# ‘Beth yw ystyr y meini hyn?’ Cynhadledd undydd ar y defnydd o’n hadeiladau

Dyna gwestiwn a ragwelodd Josua, olynydd Moses ac arweinydd yr Israeliaid, y byddai cenedlaethau’r dyfodol yn ei ofyn wrth iddyn nhw sylwi ar y cerrig oedd wedi eu pentyrru ar ochr yr Iorddonen. Tystiolaeth oedd y rhain o waith achubol Duw yn eu harwain allan o’r Aifft, croesi’r Môr Coch a’r Iorddonen ymhen 40 mlynedd (Josua 4:6).

Mae Cymru yn cael ei hadnabod fel gwlad yn llawn o gestyll a chapeli. Symbolau o orthrwm a gwrthryfel yw’r cestyll, ond mae’r capeli a’r adeiladau eglwysig o bob enwad yn dystiolaeth o waith yr Arglwydd ar hyd y cenedlaethau yn galw pobl ato’i hun mewn cymunedau ar hyd a lled ein gwlad.

Ceisio ateb y cwestiwn a osododd Josua fydd y gynhadledd a drefnir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng nghapel Gloddaeth, Llandudno, ar 2 Ebrill, yn ein cyfnod ninnau o newid cymdeithasol a chymunedol, a llawer o’n hadeiladau’n tystio i gyfnod arall yn hanes ein gwlad. Byddwn yn gofyn ‘Beth yw ystyr y meini hyn heddiw?’ a hynny mewn cynhadledd undydd fydd yn cynnwys nifer o gyfweliadau ac anerchiadau byrion. Bydd o leiaf 15 o unigolion yn siarad o brofiad am y gwaith o gynnal adeiladau, codi gwaith newydd, defnyddio mannau cymunedol a datblygu adeiladau crefyddol at ddefnydd cymunedol.

Clywn gan yr hanesydd Eryn White am ddyheadau’r bobl a gododd yr adeiladau hyn, a bydd Ieuan Wyn Jones yn sôn am addasu hen adeilad at ddefnydd cymunedol. Pwysigrwydd adeiladau mewn cymunedau ar sail ei brofiad fel ymgyrchydd iaith fydd pwnc Dafydd Iwan, a bydd Neil Kirkham yn siarad ar ran y criw yn Llandudno sydd wedi addasu capel Gloddaeth. Rhoddir sylw hefyd i faterion amgylcheddol, diwallu anghenion cymdeithasol, plannu gwaith newydd a defnyddio hen adeiladau at ddibenion newydd. Bydd cynrychiolwyr o fudiadau fel Housing Justice Cymru, CADW a’r Comisiwn Elusennau yno i rannu o’u profiad a’u harbenigedd.

‘Rydym yn wir yn edrych ymlaen at y gynhadledd hon wrth inni edrych yn greadigol ac yn ymarferol ar yr adeiladau sydd wedi eu gadael inni yn waddol gan ein rhieni. A’n bwriad yw gweld pa gyfleoedd maen nhw’n eu cynnig inni heddiw fel eglwys.’ Nan Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol EBC.

Mae llefydd yn gyfyngedig, a disgwylir i bawb a ddaw archebu eu lle am ddim drwy’r dulliau a roddir yn y poster neu yn y ddolen isod:

[Defnydd o adeiladau yn y dyfodol / The future use of buildings Tickets, Wed, Apr 2, 2025 at 9:30 AM | Eventbrite]




Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru